Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Chwefror 2019

Annwyl Mr Ramsay

Arolwg Staff Betsi Cadwaladr

Yn dilyn sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 28 Ionawr, gwneuthum ymrwymiad i rannu rhagor o fanylion am ganlyniadau arolwg staff Betsi Cadwaladr. Rwy'n gobeithio y bydd y manylion a roddir yn y llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch.

Yn ein tystiolaeth, roeddem wedi awgrymu nifer o feysydd gwella penodol a oedd wedi dangos cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu â'r staff, fel rhan o ganlyniadau'r arolwg.

Fel y dywedais yn ystod y sesiwn, mae'r gwelliannau, sydd wedi eu harwain gan y Cadeirydd newydd, o adnewyddu a chryfhau'r Bwrdd a sefydlu system werthuso a sicrwydd fwy trylwyr, hefyd wedi cyfrannu at y gwella a gafwyd. Mae arolwg staff y GIG yn 2018 yn dangos y bu newidiadau cadarnhaol ers 2013 a 2016, yn bennaf mewn perthynas ag ymgysylltu â staff. Mae hynny'n cynnwys cynnydd o 18% yng nghanran y staff a ddywedodd yn 2013 eu bod yn teimlo'n falch o'r faith eu bod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r tabl isod yn dangos gwelliannau mewn nifer o feysydd penodol:

	2013	2016	2018
Iechyd Meddwl			
Byddwn yn argymell fy sefydliad fel lle da i weithio ynddo.	44%	51%	58%
Pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas, byddwn yn hapus â safon y gofal	45%	55%	63%

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@llyw.cymru
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

a ddarperir gan y sefydliad hwn.			
Rwy'n teimlo'n falch pan ddywedaf wrth bobl fy mod yn gweithio i fy sefydliad.	38%	52%	64%
Canlyniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr			
Byddwn yn argymell fy sefydliad fel lle da i weithio ynddo.	42%	51%	61%
Pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas, byddwn yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad hwn.	51%	61%	67%
Rwy'n teimlo'n falch pan ddywedaf wrth bobl fy mod yn gweithio i fy sefydliad.	47%	54%	65%
Mae'r uwch-reolwyr yn arwain drwy esiampl	21%	28%	39%
Canlyniadau ***Cymru Gyfan***			
Byddwn yn argymell fy sefydliad fel lle da i weithio ynddo.	48%	61%	66%
Pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas, byddwn yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad hwn.	53%	68%	73%
Rwy'n teimlo'n falch pan ddywedaf wrth bobl fy mod yn gweithio i fy sefydliad.	51%	65%	72%
Mae'r uwch-reolwyr yn arwain drwy esiampl	26%	35%	42%

O ran Cymru Gyfan, roedd cyfran y staff a ymatebodd yn 2018 yn 31% o gymharu â 29%. Dyma'r sgoriau ymgysylltu cyffredinol o gymharu â sgoriau Cymru Gyfan:

	2013	2016	2018
Betsi	3.35	3.51	3.76
Cymru Gyfan	3.43	3.65	3.82

Mae canlyniadau arolwg staff 2018 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i ddangos gwelliant ers yr arolwg a gynhaliwyd yn 2016, ac er bod sgoriau'r sefydliad yn is na sgoriau GIG Cymru yn gyffredinol o ran yr ymatebion i lawer o'r cwestiynau, mae nifer o sgoriau wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn y sesiwn, rwy'n disgwyl gweld canlyniadau'r arolwg staff yn cael eu defnyddio i gymryd camau cadarnhaol.

Rwyf wedi cael fy nghalonogi o weld y gwelliant a fu yn y sgoriau sy'n ymwneud â llesiant a gweithio mewn tîm: mae pob un o'r sgoriau sy'n ymwneud â gweithio fel rhan o dîm yn debyg neu'n ddigon tebyg i'r sgoriau ar gyfer GIG Cymru yn gyffredinol. Dim ond tair sgôr sy'n debyg i ganlyniadau 2016. Serch hynny, mae pob un o'r tair sgôr hyn wedi gwella, gan gynnwys y sgôr sy'n ymwneud ag aelodau'r tîm yn rhannu'r un set o amcanion, sydd wedi gwella 8% - sef o 74% i 82% y tro hwn.

Ers 2016, gwelwyd gwelliant yn llawer o'r sgoriau ar gyfer llesiant y staff. Fodd bynnag, parhau y mae’r angen i ystyried rhai meysydd, a bydd y Bwrdd a'r uwch-arweinwyr ym Mwrdd Betsi Cadwaladr yn mynd ati i roi sylw i’r meysydd hynny.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall CBE